Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb (AEDCh)

Fersiwn 3.6 Mai 2017

Diben yr asesiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth gytbwys i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau a hyrwyddo dulliau gwell o weithio yn unol â chydraddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010), hyrwyddo'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), datblygu cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), a phedwar paramedr y drafodaeth ynghylch tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd (Adroddiad Llawn CTC i'r Cyngor 2013).

Cwblhawyd gan: Kirsty Jones **Rôl:** Swyddog Datblygu, Gwybodaeth ac Addysg

Pennaeth Gwasanaeth: Sarah Morgan **Dyddiad: 31/07/2020**

Rwy'n cadarnhau bod y Pennaeth Gwasanaeth uchod wedi cymeradwyo cynnwys yr asesiad hwn

Ydw / Nac ydw

Pan gwblhewch yr AEDCh hwn, eich cyfrifoldeb chi fydd ei gyflwyno i impact.assessments@newport.gov.uk

1. Enw a disgrifiad o'r polisi / cynnig a asesir. Amlinellwch ddiben y polisi.

Y diben yw ceisio caniatâd i ddatblygu cynnig ad-drefnu ysgol i gynyddu capasiti Ysgol Bassaleg i 2,050 o fis Medi 2023.

Mae Ysgol Bassaleg yn ysgol gymunedol a gynhelir yng Nghasnewydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed. Capasiti mesuredig yr ysgol yw 1,747 a'r nifer derbyn cyhoeddedig (PAN) ar gyfer blynyddoedd 7-11 yw 270. Yn dilyn agor Ysgol Gynradd Parc y Jiwbilî yn 2017 ar y datblygiad tai o'r un enw, nid yw nifer derbyn presennol Ysgol Bassaleg bellach yn ddigon i ateb y galw yn y dalgylch am leoedd disgyblion. O ganlyniad, mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cynnig cynyddu'r nifer derbyn ar gyfer blynyddoedd 7-11 i 330, a thrwy hynny gynyddu capasiti cyffredinol yr ysgol i 2,050 yn y pen draw, o fis Medi 2023.

Disgwylir i Ysgol Bassaleg elwa o waith adnewyddu dan Fand B Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Dan y trefniant hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi 65% o'r arian gofynnol, yn amodol ar gymeradwyaeth achos busnes. Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cynnig defnyddio'r cyfle hwn i ddarparu'r capasiti ysgol ychwanegol yn y project adnewyddu.

2. Amlinellwch sut rydych chi wedi/sut byddwch chi'n cynnwys y rhanddeiliaid y bydd y polisi/cynnig hwn yn effeithio arnynt. *Cyfeiriwch yn benodol at ganllawiau AEDCh yn ymwneud â dyletswyddau iaith Gymraeg perthnasol.*

Os rhoddir caniatâd i fwrw ymlaen â'r cynnig hwn, bydd y cynnig yn cael ei wneud yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol.

Mae'r broses ymgynghori yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a gaiff eu recordio a'u crynhoi mewn adroddiad ymgynghori. Caiff yr adroddiad dan sylw ei gyhoedd ar wefan y Cyngor a chaiff ei ystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu ar y ffordd ymlaen.

Bydd llythyrau rhanddeiliaid yn cael eu cynhyrchu a'u dosbarthu i rieni, plant a staff yr ysgolion yr effeithir arnynt. Bydd negeseuon e-bost rhanddeiliaid yn cael eu hanfon at bartneriaid addysg Cyngor Dinas Casnewydd. Caiff y cynnig ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.

Caiff Fersiwn Cryno Bob Dydd i Blant a Phobl Ifanc o'r ddogfen ymgynghori ei greu. Bydd hyn a'r fersiwn llawn ar gael drwy wefan CDC http://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx, o'r Ganolfan Ddinesig, a'r orsaf wybodaeth. Gallwch hefyd ofyn am gopïau drwy anfon e-bost at school.reorg@newport.gov.uk neu drwy ffonio 01633 656656.

Oherwydd y sefyllfa bresennol o ran iechyd y cyhoedd yn y DU, ac er mwyn helpu i gyfyngu ar ledaeniad y Coronafeirws, nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw ddigwyddiadau galw heibio cyhoeddus yn ystod yr ymgynghoriad hwn. Yn hytrach, gellir cyflwyno cwestiynau drwy e-bost i school.reorg@newport.gov.uk a bydd swyddogion y Cyngor yn rhoi ymateb o fewn 7 diwrnod yn gyffredinol. Dylai hyn alluogi rhanddeiliaid i gyflwyno ymatebion gwybodus i'r ymgynghoriad. Bydd rhestr o *Gwestiynau ac Atebion Cyffredin* hefyd yn cael ei chyhoeddi ar dudalennau gwe'r Cyngor yn http://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx

Gellir cyflwyno sylwadau a chwestiynau drwy e-bost neu drwy ddefnyddio ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad. Caiff platfformau megis Twitter a Facebook hefyd eu defnyddio i rannu gwybodaeth ar y newidiadau a gynigiwyd.

Yn dilyn ymgynghoriad, bydd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd yn ystyried y safbwyntiau a fynegwyd cyn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio. Os penderfynir bwrw ymlaen, caiff hysbysiad statudol ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd a chaiff hysbysiadau eu rhoi ar gatiau'r holl ysgolion yr effeithir arnynt. Bydd y cyfnod hysbysu statudol yn para am 28 diwrnod o'r dyddiad cyhoeddi, ac mae'n galluogi pobl i fynegi eu barn o ran cefnogi neu wrthwynebu'r cynigion. Os na cheir gwrthwynebiadau ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad statudol, bydd Aelod y Cabinet dros Addysg a Sgiliau'n gwneud y penderfyniad terfynol o ran a ddylid bwrw ymlaen neu beidio. Os derbynnir unrhyw wrthwynebiadau ac na chânt eu tynnu'n ôl wedyn yn ystod y cyfnod hysbysu hwn, Cabinet y Cyngor fydd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol.

3. Pa wybodaeth/tystiolaeth sydd gennych am randdeiliaid? e.e. barn, anghenion, defnydd o wasanaethau ac ati. Nodwch yr holl dystiolaeth sy'n berthnasol yn eich barn chi.

Mae'r Cod Statudol yn amlinellu'r rhanddeiliaid allweddol y dylid ymgynghori â nhw fel rhan o'r broses hon sy'n cynnwys ysgolion, rhieni, aelodau etholedig, cynghorau cymuned ac undebau llafur. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr ac mae'r Cyngor wedi nodi ac ychwanegu at hyn o ganlyniad i adborth a dderbyniwyd mewn perthynas â chynigion blaenorol.

Y rhanddeiliaid allweddol y mae'r cynnig yn berthnasol iddynt yw plant, teuluoedd a gofalwyr sydd ar hyn o bryd yn mynychu Ysgol Bassaleg a/neu sy'n byw yn y dalgylch. Gallai preswylwyr sy'n byw yn ardal Ysgol Bassaleg hefyd fod â phryderon ynglŷn â'r cynnig.

Bydd ymgynghori â grwpiau rhanddeiliaid hefyd yn cynnwys disgyblion, drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb (lle bo modd os gellir rhoi mesurau ar waith oherwydd y sefyllfa bresennol o ran iechyd y cyhoedd) a thrwy holiaduron.

Mae Ysgol Bassaleg wedi'i lleoli yn ward Graig, er bod dalgylch yr ysgol yn ymestyn i wardiau Maerun a Thŷ-du. Mae'r ysgol yn denu disgyblion o bob rhan o Gasnewydd ac o awdurdodau cyfagos.

Mae ward Graig yn cynrychioli tua 7.5% o ardal gyfan Casnewydd ac mae'n gartref i 4.07% o gyfanswm poblogaeth y ddinas. Mae ffigurau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod tua 15.08% o boblogaeth y ward rhwng 5 a 15 oed, sef y bedwaredd boblogaeth uchaf o blant 5 i 15 oed yng Nghasnewydd ac yn uwch na chyfartaledd Casnewydd, sef 13.72%.

Mae ward Maerun yn cynrychioli tua 18.63% o ardal gyfan Casnewydd ac mae'n gartref i 4.21% o boblogaeth Casnewydd. Mae ffigurau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod tua 14.30% o boblogaeth y ward rhwng 5 a 15 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Casnewydd, sef 13.72%.

Mae ward Tŷ-du yn cynrychioli tua 4.54% o ardal gyfan Casnewydd ac mae'n gartref i 6.97% o boblogaeth Casnewydd. Mae ffigurau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod tua 13.77% o boblogaeth y ward rhwng 5 a 15 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Casnewydd, sef 13.72%.

Datblygwyd y cynnig yng ngoleuni'r niferoedd cynyddol yn Ysgol Bassaleg sydd eisoes wedi gweld cynnydd yn ei Rhif Derbyn Cyhoeddedig (RhDC) o 247 i 270 ym mis Medi 2014 ac aeddfedodd hyn drwy'r ysgol gyfan ym mis Medi 2018. Mae datblygiadau tai newydd (Parc y Jiwbilî a Chlwb Golff Parc Tredegar) yn nalgylch Bassaleg wedi gweld y galw am leoedd yn Ysgol Bassaleg yn cynyddu ymhellach fyth.

Mae'r wybodaeth a gesglir am randdeiliaid wedi dod o'r canlynol:

- Proffiliau lles cymunedol Casnewydd – wardiau Graig, Maerun a Thŷ-du
- StatsCymru
- Cyfrifiad Disgyblion

4. Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb

Nodwedd a Ddiogelir	Effaith: Cadarnha	Negyddol	Y naill	Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu / aflonyddu / erlid yn anghyfreithlon?
Oedran	☒	☐	☐	Bydd y cynnig yn gweld cynnydd yn nifer y lleoedd mewn ysgolion uwchradd yn nalgylch Bassaleg gan helpu i ateb y galw ychwanegol o ddatblygiadau tai newydd. Mae niferoedd y disgyblion ar draws yr ysgol wedi aros yn sefydlog hyd yn oed gyda gostyngiad o 21% yn nifer y disgyblion ôl-16 dros y pedair blynedd diwethaf. Gellir priodoli'r sefydlogrwydd i'r carfanau mwy sydd wedi bod yn ymuno â'r ysgol ym mlwyddyn 7 gyda phob un yn dilyn cynnydd i'r RhDC. Mae cynyddu capasiti'r ysgol o 1,747 i 2,050 yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd plant mewn dalgylch yn cael lleoedd yn ysgol uwchradd y dalgylch gyda niferoedd a ragwelir ar gyfer y pedair blynedd nesaf yn fwy na chapasiti presennol yr ysgol. Bydd y cynnydd yn y lleoedd sydd ar gael ar agor i bawb yng Nghasnewydd a thu allan i Gasnewydd wneud cais amdanynt, gyda'r lleoedd yn cael eu dyrannu drwy feini prawf gordanysgrifio'r Cyngor os daw mwy o geisiadau i law na'r lleoedd sydd ar gael. Amlinellir y meini prawf gordanysgrifio yn y Polisi Derbyn i Ysgolion.
Anabledd	☒	☐	☐	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd a ddiogelir hon. Bydd yr holl waith a gwblheir ar gyfer yr ehangu arfaethedig yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn cynnwys disodli'r cyfleusterau presennol sy'n hen ffasiwn ac wedi'u gwasgaru ar draws safle'r ysgol gyda chyfleusterau newydd sbon a fydd yn gwbl hygyrch, yn cydymffurfio ac yn agosach at ei gilydd. Bydd yr ysgol yn parhau i weithredu ei Strategaeth Hygyrchedd.

Nodwedd a Ddiogelir	Effaith:			Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu / aflonyddu / erlid yn anghyfreithlon?
	Cadarnha	Negyddol	Y naill	
Ailbennu rhywedd / trawsryweddol	☐	☐	☒	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd a ddiogelir hon. Bydd plant sy'n elwa o'r cynnig yn profi pob agwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd i'w gyflwyno yn yr Ysgol Gynradd a Blwyddyn 7 o 2022, a'i gyflwyno fesul blwyddyn nes ei fod yn cynnwys Blwyddyn 11 yn 2026.
Priodas neu bartneriaeth sifil	☐	☐	☒	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd a ddiogelir hon.
Beichiogrwydd neu famolaeth	☐	☐	☒	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd a ddiogelir hon. I rieni sy'n disgwyl, rhagwelir y bydd lleoedd ysgol ychwanegol yn Ysgol Bassaleg yn cael effaith gadarnhaol ar y posibiliadau o blant yn cael lle yn eu hysgol leol.
Hil	☐	☐	☒	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd a ddiogelir hon. Bydd plant sy'n elwa o'r cynnig yn profi pob agwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd i'w gyflwyno yn yr Ysgol Gynradd a Blwyddyn 7 o 2022, a'i gyflwyno fesul blwyddyn nes ei fod yn cynnwys Blwyddyn 11 yn 2026.
Crefydd neu Gred neu ddiffyg cred	☐	☐	☒	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd a ddiogelir hon. Bydd plant sy'n elwa o'r cynnig yn profi pob agwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd i'w gyflwyno yn yr Ysgol Gynradd a Blwyddyn 7 o 2022, a'i gyflwyno fesul blwyddyn nes ei fod yn cynnwys Blwyddyn 11 yn 2026.
Rhywedd	☐	☐	☒	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd a ddiogelir hon.

Nodwedd a Ddiogelir	Effaith: Cadarnha	Negyddol	Y naill	Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu / aflonyddu / erlid yn anghyfreithlon?
				Bydd plant sy'n elwa o'r cynnig yn profi pob agwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd i'w gyflwyno yn yr Ysgol Gynradd a Blwyddyn 7 o 2022, a'i gyflwyno fesul blwyddyn nes ei fod yn cynnwys Blwyddyn 11 yn 2026.
Cyfeiriadedd Rhywiol	☐	☐	☒	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd a ddiogelir hon. Bydd plant sy'n elwa o'r cynnig yn profi pob agwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd i'w gyflwyno yn yr Ysgol Gynradd a Blwyddyn 7 o 2022, a'i gyflwyno fesul blwyddyn nes ei fod yn cynnwys Blwyddyn 11 yn 2026.
Y Gymraeg	☐	☒	☐	Ysgol cyfrwng Saesneg yw Ysgol Bassaleg. Fodd bynnag, bydd y plant a gaiff fudd o'r cynnig yn manteisio ar bob agwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol, gan gynnwys y Cwricwlwm Cymraeg. Nid yw'r cynnig yn effeithio ar gynlluniau'r Cyngor i ddatblygu a hyrwyddo darpariaeth gyfrwng Cymraeg ar draws y Ddinas. Cydnabyddir felly na fydd y cynnig hwn yn cyfrannu at dargedau'r Cyngor mewn perthynas â Cymraeg 2050.

5 Sut mae eich cynnig wedi ymwreiddio a blaenoriaethu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ei ddatblygu?

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Disgrifiwch sut.
 Cydbwyso angen tymor byr gydag anghenion tymor hir	Tyfodd poblogaeth Casnewydd gan bron i 3,500 o bobl rhwng 2011 a 2016, ac mae poblogaeth ysgolion cynradd Casnewydd wedi tyfu gan 1,475 rhwng mis Ionawr 2014 a mis Ionawr 2019. Wrth i'r disgyblion hyn aeddfedu, mae'r pwysau ar leoedd mewn ysgolion yn trosglwyddo i'n hystâd ysgolion uwchradd, sy'n cael ei hadlewyrchu yn ein rhagolygon poblogaeth disgyblion. Mae dros 1000 o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu yn natblygiad Parc y Jiwbilî, sydd ond milltir i ffwrdd ac sydd o fewn dalgylch Ysgol Bassaleg. Ymhlith y datblygiadau llai eraill yn yr ardal mae datblygiad Llys Carnegie a fydd yn darparu 150 o gartrefi ychwanegol. Agorodd Ysgol Gynradd Parc y Jiwbilî ym mis Medi 2017 i ddarparu lleoedd mewn ysgolion cynradd i blant sy'n byw ar y datblygiad hwnnw, chweched ysgol gynradd clwstwr Ysgol Bassaleg oedd yr ysgol hon. Mae cyfraddau genedigaethau uchel a theuluoedd newydd sy'n symud i ardaloedd Bassaleg a Thŷ-du wedi arwain at gynnydd yn y boblogaeth, sy'n golygu nad yw'r nifer derbyn ar gyfer Ysgol Bassaleg bellach yn ddigon i dderbyn yr holl ddisgyblion sy'n symud ymlaen i'r ysgol uwchradd o ysgolion cynradd y clwstwr. Roedd y cynnydd yn y boblogaeth yn golygu creu dosbarthiadau ysgol gynradd dros dro ychwanegol yn ysgolion cynradd High Cross, Mount Pleasant a Thŷ-du rhwng 2011 a 2016 i ddarparu capasiti ychwanegol. Mae dosbarth swigod ar gyfer carfan Medi 2020 hefyd wedi'i gyflwyno yn Ysgol Gynradd Mount Pleasant. Bydd y cynnig yn ymestyn gallu Ysgol Bassaleg i ddisodli cyfleusterau cyfredol a hen ffasiwn gyda chyfleusterau newydd sy'n cydymffurfio'n llawn ac yn agosach at ei gilydd ar safle'r ysgol. Mae rhagolygon yr ysgol yn dangos bod carfan Bassaleg yn fwy na'r RhDC am o leiaf y pedair blynedd nesaf, pe bai pob disgybl yn y garfan yn gwneud cais am Bassaleg yna byddai ceisiadau'n cael eu gwrthod a allai gynnwys rhai yn y dalgylch a gyflwynir ar amser.
 Cydweithio i gyflawni amcanion	Cynhelir ymgynghoriad statudol ffurfiol gyda'r cyfle i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid yn cael ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith. Bydd y cynnig yn cael ei gyflwyno drwy ymgysylltu'n llawn â thîm arwain Ysgol Bassaleg.

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Disgrifiwch sut.
 Cynnwys pawb sydd â diddordeb a cheisio eu barn	Bydd y rhanddeiliaid canlynol yn cael eu cynnwys yn y broses ymgynghori: • Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu'r holl ysgolion yr effeithir arnynt; • Disgyblion sy'n mynychu'r holl ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt; • Aelodau o staff a gyflogir gan yr holl ysgolion ar hyn o bryd y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt; • Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Trefynwy; • Yr Archesgobaeth Gatholig; • Awdurdodau lleol cyfagos ar draws ardal Consortiwm De-ddwyrain Cymru; • Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu pob ysgol yng Nghasnewydd; • Holl aelodau etholedig Cyngor Dinas Casnewydd; • Holl Benaethiaid Gwasanaethau Cyngor Dinas Casnewydd; • Cyngor Cymuned Lleol; • Gweinidogion Cymru; • Aelodau Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion sy'n destun y cynigion; • Estyn; • Undebau llafur staff a staff addysgu sy'n cynrychioli athrawon a staff a gyflogir yn yr holl ysgolion y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt; • Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru; • Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent; • Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent; • Gwasanaethau ataliol Yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol, caiff Adroddiad Ymgynghori ei baratoi a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.
 Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu	Mae ardal Bassaleg a Thŷ-du yn gweld datblygiadau tai'n cael eu hadeiladu a'r mwyaf o'r rhain yw datblygiad Parc y Jiwbilî. Mae pwysau ar leoedd mewn ysgolion uwchradd yng Nghasnewydd gyda llawer o ysgolion uwchradd yn llawn drwy geisiadau a gyflwynwyd ar amser, yn enwedig yng ngorllewin y ddinas. Mae Ysgol Bassaleg dan bwysau oherwydd y cynnydd yn y boblogaeth yn y dalgylch, ac o ganlyniad, mae capasiti ychwanegol eisoes wedi'i greu i gefnogi carfannau Medi 2019 a Medi 2020. Heb y newid hwn, ni fyddai plant sy'n byw yn y dalgylch ac yn cyflwyno cais ar amser wedi cael cynnig lle. Bydd cynnydd parhaol yn y RhDC yn atal hyn rhag parhau yn y dyfodol.

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Disgrifiwch sut.
Integration Ystyried effaith ar bob nod lles ar y cyd ac ar gyrff eraill	Bydd ymgynghoriad statudol ffurfiol yn mynd rhagddo a chaiff ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith. Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nodau Lles "Cymru ffyniannus", "Cymru fwy cyfartal" a "Chymru â chymunedau cydlynol" ac nid yw'n cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r Nodau Lles eraill. Hefyd, mae'r cynnig hwn yn cefnogi Amcan Lles Cyngor Dinas Casnewydd "I wella sgiliau, deilliannau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth".

6 A fydd y cynnig / polisi'n cael effaith anghymesur ar ardal ddaearyddol benodol yng Nghasnewydd?

Mae Ysgol Bassaleg eisoes yn ysgol sefydledig sy'n agored i ddisgyblion ledled y ddinas. Mae'r cynnig yn cefnogi disodli cyfleusterau o ansawdd gwael ar hyn o bryd tra'n cynyddu capasiti'r ysgol. Bydd y cynnig o fudd i glwstwr Bassaleg yn gyffredinol, gan y bydd mwy o leoedd ar gael mewn ardal lle mae datblygiadau tai eisoes ar y gweill, a lle mae capasiti ysgolion cynradd y clwstwr yn fwy na chapasiti'r ysgol uwchradd.

7 Sut mae'r cynnig / polisi'n perthyn i'r paramedrau trafod ynghylch Tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd

Paramedr 1 – Triniaeth gyfartal wrth gydnabod gwahaniaeth

Mae'r cynnig yn cefnogi poblogaeth amrywiol ac sy'n tyfu lle bydd angen lleoedd ychwanegol mewn ysgolion, gydag amcanestyniadau disgyblion ar gyfer Ysgol Bassaleg yn dangos y bydd yr ysgol dros gapasiti gyda charfan fwy ymhlith yr ysgolion clwstwr nag y gall yr ysgol uwchradd ddarparu ar ei gyfer.

Paramedr 2 – Rhwymedigaethau ar y cyd rhwng dinasyddion a'r llywodraeth

Mae lleoedd mewn ysgolion ar gael ledled Casnewydd i'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhianta dros blentyn i wneud cais amdanynt, gyda cheisiadau'n cael eu prosesu gan y tîm Derbyn i Ysgolion yn unol â'r Polisi Derbyn i Ysgolion. Bydd y lleoedd ychwanegol a grëir drwy'r cynnig hwn yn cael eu dyrannu fel hyn. Os yw nifer y ceisiadau a dderbynnir yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd meini prawf gordanysgrifio'r Cyngor yn cael eu cymhwyso i bennu blaenoriaeth.

Paramedr 3 - Rhyng-ddibyniaeth a chilyddiaeth o fewn perthnasoedd cymunedol

Bydd y lleoedd ychwanegol sy'n cael eu cynnig yn dod â manteision ar draws clwstwr Bassaleg lle mae datblygiadau tai'n cael eu hadeiladu mewn ardaloedd lle mae'r ysgolion uwchradd lleol yn agos at gapasiti, neu dros gapasiti.

Paramedr 4 – Tryloywder ac atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau

Mae’r ddogfen ymgynghori yn amlinellu’r broses gwneud penderfyniadau yn dryloyw ac atebol o ran y wybodaeth a geir ynddi. Mae’n galluogi dinasyddion i gyfranogi’n effeithiol a democrataidd.

8. Effeithiau Cydraddoldeb a Chamau Gweithredu

Cwblhewch y cynllun gweithredu isod sy'n nodi'r camau a fydd yn cael/na fydd yn cael eu cymryd er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol y mae eich asesiad wedi'u nodi.

Effaith a nodwyd	**Ar bwy y mae'n effeithio?**	**Beth wnewch chi i liniaru'r effaith? Os ydych yn bwriadu peidio â gweithredu, cyfiawnhewch eich rhesymeg**	**Pwy sy'n gyfrifol?**
Amgylchedd	Preswylwyr lleol	Mae'r cynnydd arfaethedig o ran capasiti ar gyfer Ysgol Bassaleg yn ymateb uniongyrchol i ddatblygiad tai newydd yn yr ardal gyfagos ym Mharc y Jiwbilî a Chlwb Golff Parc Tredegar, y mae'r ddau ohonynt o fewn pellter cerdded hawdd i'r ysgol. Felly, mae'r effaith ar draffig eisoes wedi'i chyfrifo i raddau helaeth yn y ceisiadau cynllunio ar gyfer y ddau ddatblygiad hynny, mewn ardal sydd wedi gweld buddsoddiad mewn gwelliannau i gynllun ffyrdd a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar. Mae llwybr cerdded diogel yn bodoli eisoes rhwng datblygiad Parc y Jiwbilî a safle'r ysgol, a rhoddir ystyriaeth i welliannau i hyn fel rhan o'r cynllun arfaethedig. Mae gwell mynediad a pharcio yn cael eu cynnwys yn y cynigion dylunio ar gyfer y datblygiad, a fydd hefyd yn ceisio lleihau nifer y cerbydau chweched dosbarth y mae angen eu parcio ar y strydoedd lleol y tu allan i safle'r ysgol.	Cyngor Dinas Casnewydd

		Mae llwybrau diogel i'r ysgol a threfniadau teithio llesol yn cael eu hystyried mewn partneriaeth â chydweithwyr yn adran Gwasanaethau'r Ddinas. Ystyrir bod datblygu strategaeth deithio gydlynol a chynllun teithio i'r ysgol i hyrwyddo dewisiadau teithio sy'n ystyriol o ecoleg yn rhan annatod o'r cynllun arfaethedig a chaiff ei gyflwyno fel rhan o'r pecyn cais cynllunio.	
Y Gymraeg	Preswylwyr Lleol	Ysgol gyfrwng Saesneg yw Ysgol Bassaleg. O ganlyniad, nid yw'r cynnig yn effeithio ar gynlluniau'r Cyngor i ddatblygu a hyrwyddo darpariaeth gyfrwng Cymraeg ar draws y Ddinas. Cydnabyddir felly na fydd y cynnig hwn yn cyfrannu at dargedau'r Cyngor mewn perthynas â Cymraeg 2050. Fodd bynnag, bydd y plant a gaiff fudd o'r cynnig yn manteisio ar bob agwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol, gan gynnwys y Cwricwlwm Cymraeg.	Cyngor Dinas Casnewydd

9. Monitro, gwerthuso ac adolygu

Caiff unrhyw gwestiynau neu sylwadau a wneir drwy gydol y broses eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ymgynghori. Caiff yr adroddiad dan sylw ei gyhoedd ar wefan y Cyngor a chaiff ei ystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu ar y ffordd ymlaen.

Yn dilyn ymgynghoriad, bydd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd yn ystyried y farn a fynegwyd cyn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio. Os penderfynir parhau, cyhoeddir hysbysiad statudol yn y wasg leol ac yn yr ysgol.

Bydd y cyfnod hysbysu statudol yn para am 28 diwrnod o'r dyddiad cyhoeddi, ac mae'n galluogi pobl i fynegi eu barn o ran cefnogi neu wrthwynebu'r cynigion.

Os na cheir gwrthwynebiadau ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad statudol, bydd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran a ddylid bwrw ymlaen neu beidio. Os ceir gwrthwynebiadau, caiff y penderfyniad terfynol ei gyfeirio at Gabinet y Cyngor.

10. Cynnwys Pobl

Mae'r broses ymgynghori yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig. Bydd y cynnig ar gael ar-lein yn Gymraeg a Saesneg, drwy wefan Cyngor Dinas Casnewydd, e-bost a chyfryngau cymdeithasol, ac fel copi caled.

Gellir cyflwyno cwestiynau ar unrhyw adeg yn ystod y broses ymgynghori ac ymatebir iddynt o fewn 7 diwrnod – bydd hyn yn disodli'r sesiwn galw heibio arferol oherwydd y sefyllfa bresennol o ran iechyd y cyhoedd.

Caiff unrhyw gwestiynau neu sylwadau a wneir drwy gydol y broses eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ymgynghori. Caiff yr adroddiad dan sylw ei gyhoedd ar wefan y Cyngor a chaiff ei ystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu ar y ffordd ymlaen.

11. Crynodeb o Effaith (i'w gynnwys mewn unrhyw adroddiad)

Deddf Cydraddoldeb 2010

Bydd y cynnig yn darparu digon o gapasiti yn Ysgol Bassaleg i ateb y galw disgwyliedig gan deuluoedd yn y dalgylch ar gyfer y dyfodol agos. Yn ogystal, bydd llawer o'r llety o ansawdd gwael presennol yn cael ei ddisodli gan floc addysgu newydd cwbl hygyrch o'r radd flaenaf gyda chyfleusterau bwyta a chyfleusterau gwasanaethau. Bydd yr holl waith yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Y Gymraeg

Bydd y plant a gaiff fudd o'r cynnig yn manteisio ar bob agwedd o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, gan gynnwys y Cwricwlwm Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn effeithio ar gynlluniau'r Cyngor i ddatblygu a hyrwyddo darpariaeth gyfrwng Cymraeg ar draws y Ddinas. Cydnabyddir felly na fydd y cynnig hwn yn cyfrannu at dargedau'r Cyngor mewn perthynas â Cymraeg 2050.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- **Tymor hir: pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu hefyd i fodloni anghenion tymor hir:** Mae Ysgol Bassaleg wedi'i gordanysgrifio'n gyson. Disgwylir i'r galw hwn gynyddu wrth i ddatblygiadau tai newydd yn yr ardal barhau i aeddfedu. Bydd cynyddu'r capasiti yn sicrhau y gellir cefnogi'r galw a ragwelir gan ddisgyblion yn y dalgylch, yn y tymor byr a'r tymor hwy.

- **Atal: Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu ein helpu i fodloni'n hamcanion:** Mae modelau rhagamcanu disgyblion yn dangos y bydd Ysgol Bassaleg yn parhau i gael ei gordanysgrifio, ond wrth symud ymlaen mae'r gordanysgrifiad hwn yn cyfateb i ddisgyblion o fewn y dalgylch dynodedig. Gallai methu â gweithredu nawr arwain at wrthod ceisiadau a gyflwynir ar amser o fewn y dalgylch yn y dyfodol yn rheolaidd. Bydd hyn yn effeithio ar les disgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer yr apeliadau derbyn i'r ysgol a chael effaith ar gostau trafnidiaeth rhwng y cartref a'r ysgol.
- **Integreiddio: Ystyried sut y bydd y cynigion yn effeithio ar ein hamcanion lles, ein nodau lles, amcanion eraill neu amcanion cyrff cyhoeddus eraill:**Bydd ymgynghoriad statudol ffurfiol yn mynd rhagddo a chaiff ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith. Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nodau Lles "Cymru ffyniannus", "Cymru fwy cyfartal" a "Chymru â chymunedau cydlynol" ac nid yw'n cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r Nodau Lles eraill. Hefyd, mae'r cynnig hwn yn cefnogi Amcan Lles Cyngor Dinas Casnewydd "I wella sgiliau, deilliannau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth".
- **Cydweithredu: Ydych chi wedi ystyried sut y gall cydweithredu gydag unrhyw berson arall neu unrhyw ran arall o'n sefydliad helpu i fodloni ein hamcanion lles:** Bydd cyfle i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid drwy ymgynghoriad statudol ffurfiol. Bydd ymgysylltiad llawn tîm arwain Ysgol Bassaleg yn chwarae rhan wrth helpu i gyflawni'r amcanion lles.
- **Cynnwys Pobl: Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth y Ddinas a wasanaethwn:**Bydd cynnig ffurfiol i ad-drefnu ysgolion yn cael ei gynnal a'i gefnogi ym mhob cam gan AEDCh a fydd yn ystyried effaith. Bydd y cynnig hwn yn cynnwys cyfnod o ymgynghori ffurfiol a fydd yn cynnig cyfle i'r holl randdeiliaid gael rhagor o wybodaeth am y cynnig a sut y gallai effeithio arnynt. Ar ôl i'r ymgynghoriad ffurfiol ddod i ben, caiff Adroddiad Ymgynghori ei baratoi, ei gyhoeddi a'i ddosbarthu i'r holl randdeiliaid a nodwyd.

Paramedrau Tegwch

- **Paramedr 1 – Triniaeth gyfartal wrth gydnabod gwahaniaeth**
  Mae'r cynnig yn cefnogi poblogaeth amrywiol ac sy'n tyfu lle bydd angen lleoedd ychwanegol mewn ysgolion, gydag amcanestyniadau disgyblion ar gyfer Ysgol Bassaleg yn dangos y bydd yr ysgol dros gapasiti gyda charfan fwy ymhlith yr ysgolion clwstwr nag y gall yr ysgol uwchradd ddarparu ar ei gyfer.
- **Paramedr 2 – Rhwymedigaethau ar y cyd rhwng dinasyddion a'r llywodraeth**
  Mae lleoedd mewn ysgolion ar gael ledled Casnewydd i'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhianta dros blentyn i wneud cais amdanynt, gyda cheisiadau'n cael eu prosesu gan y tîm Derbyn i Ysgolion yn unol â'r Polisi Derbyn i Ysgolion. Bydd y lleoedd ychwanegol a grëir drwy'r cynnig hwn yn cael eu dyrannu fel hyn. Os yw nifer y ceisiadau a dderbynnir yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd meini prawf gordanysgrifio'r Cyngor yn cael eu cymhwyso i bennu blaenoriaeth.
- **Paramedr 3 - Rhyng-ddibyniaeth a chilyddiaeth o fewn perthnasoedd cymunedol**
  Bydd y lleoedd ychwanegol sy'n cael eu cynnig yn dod â manteision ar draws clwstwr Bassaleg lle mae datblygiadau tai'n cael eu hadeiladu mewn ardaloedd lle mae'r ysgolion uwchradd lleol yn agos at gapasiti, neu dros gapasiti.
- **Paramedr 4 – Tryloywder ac atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau**
  Mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r broses gwneud penderfyniadau yn dryloyw ac atebol o ran y wybodaeth a geir ynddi. Mae'n galluogi dinasyddion i gyfranogi'n effeithiol a democrataidd.